

COVID-19 - diweddariad i rieni a gofalyddion

Annwyl Riant,

Mae'n siŵr y byddwch chi wedi gweld adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am niferoedd cynyddol o achosion coronafeirws positif mewn ysgolion ar draws yr ardal. Mae'n amlwg nad yw coronafeirws wedi diflannu ac mae'n parhau i fod yn risg wirioneddol i ni i gyd.

Yn gyntaf, hoffwn i ddiolch i bawb sy'n gwneud eu rhan i reoli lledaeniad coronafeirws yn ein cymuned.

Mae hunanynysu yn chwarae rhan allweddol wrth leihau'r ymlediad a byddwch chi'n gwybod bod yn rhaid i ni ddilyn y canllawiau a gofyn i ddisgyblion ynysu am gyfnod o 10 diwrnod os ydyn nhw mewn 'swigod' yr effeithir arnynt.

Rydym ni'n cydnabod yn llwyr y gall hunanynysu fod yn rhwystredig i bobl ifanc, yn enwedig i'r rhai nad ydyn nhw'n dangos symptomau, ond mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn dilyn y rheolau hyn ac yn ynysu gartref am gyfnod o 10 diwrnod os gofynnir i ni i wneud hynny.

Os ydyn ni am leihau'r siawns o darfu pellach ar addysg ein disgyblion, mae'n hanfodol bod pawb yn dilyn y canllawiau hyn yn agos

Dylech chi barhau i fonitro'ch plentyn am symptomau COVID-19:

- Peswch newydd parhaus a/neu
- Tymheredd uchel (37.8oC neu'n uwch) a/neu
- Colli neu newid yn ei synnwyr blasu neu arogli
- Pen tost, gwddf tost neu drwyn yn rhedeg.

Ni ddylai plant sy'n dangos unrhyw un o'r symptomau uchod fynychu'r ysgol. Hoffem ni hefyd gynghori rhieni am y symptomau ehangach y gall yr amrywiolyn Delta eu hachosi, gan gynnwys symptomau clefyd y gwair, dolur rhydd a/neu stumog dost. Gofynnwn ni yn garedig i rieni fod yn or-wyliadwrus am unrhyw un o'r cyflyrau hyn ac os yw'ch plentyn yn dangos unrhyw un o'r symptomau hyn, gofynnwn ni i chi archebu prawf PCR ar ei ran ar unwaith.

Cofion

Keri Cole
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili